Rhifyn 36 Hydref 2019

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Bwletin Newyddion Llais y Cleifion

Prosiect y Gaeaf 2020

Yn dilyn llwyddiant prosiect y gaeaf y llynedd, bydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn cynnal prosiect y gaeaf eto rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020.

Nod Prosiect y Gaeaf yw casglu adborth ystyrlon gan gleifion yn ystod misoedd 'pwysau'r gaeaf' a galluogi'r Bwrdd Iechyd i ymateb mewn ffordd ragweithiol i unrhyw faterion a all godi.

Caiff adborth ei gasglu drwy arolwg a fydd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Amseroedd aros
- Lefelau cysur
- Cyfathrebu

Caiff adborth ar brofiadau'r cleifion ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd bob wythnos. Yna, caiff adroddiad cynhwysfawr ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Prosiect Orthodonteg

Gwnaeth Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru lansio Prosiect Orthodonteg ym mis Hydref 2019. Bydd y prosiect hwn yn cyfeirio at bobl ifanc sy'n aros i gael triniaeth orthodonteg. Caiff arolygon eu hanfon at bob ysgol a chlinig Orthodonteg sy'n barod i gymryd rhan yn yr arolwg er mwyn cael adborth y cleifion ar y gwasanaeth. Caiff yr adroddiad terfynol ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru gyda'r nod o sicrhau bod llais y person ifanc yn cael ei glywed.

Mae arolygon ar gael ar gais.

Prosiect Fframiau Zimmer

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned wrthi'n cynnal arolwg ar dreialu fframiau cerdded lliwgar a gyflwynwyd yn ddiweddar. Anfonwyd arolygon at bob Cartref Nyrsio a phob Ward Ysbyty sy'n cymryd rhan yn y treial.

Ymwybyddiaeth o'r Cyngor Iechyd Cymuned

Mae aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi cynnal tri digwyddiad ymwybyddiaeth yn ddiweddar mewn fforymau 50+ lleol h.y.

- 6 Awst – Blaenafon
- 11 Medi – Pont-y-pŵl
- 22 Hydref – Cwmbrân

Rhoddwyd cyflwyniad i bob grŵp er mwyn codi ymwybyddiaeth o rôl y Cyngor Iechyd Cymuned a'r gweithgareddau a gynhelir.

Ymweliadau

Mae aelodau o'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi cynnal 11 o ymweliadau i'r Ysbytai canlynol yn ddiweddar, rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2019:

Ysbyty Ystrad Fawr x 1
Ysbyty Brenhinol Gwent x 4
Ysbyty Nevill Hall x 5
Ysbyty'r Sir x 1

Mae copi o bob adroddiad ar gael ar gais.

Eiriolaeth

O fis Gorffennaf 2019 hyd heddiw, mae ein Gwasanaeth Eiriolaeth wedi derbyn 60 o bryderon newydd. Mae hyn yn codi'n llwyth achosion cyfredol i 141. Nodir isod y pum prif faes gofal iechyd sy'n amlwg mewn pryderon:

- Gofal Sylfaenol – Practis Cyffredinol
- Gwasanaethau Canser
- Trawma ac Orthopedeg
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion

Aelodaeth

Rydym wedi recriwtio'r canlynol yn ddiweddar:

- Tri Aelod Cyfetholedig:

Mr Byron Grubb, Mr Brian Potts a Mrs Susan Gaylard

- Tri Aelod yr Awdurdod Lleol:

Y Cynghorydd Graham Berry, Y Cynghorydd David Fouweather a'r Cynghorydd Huw Bevan

Os hoffech ddod yn aelod, ffoniwch 01633 838516 i gael gwybodaeth.

Ffarwelio

Yn anffodus, bu'n rhaid i Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ffarwelio â Mrs Andrea Gage, Eiriolwr Cwynion, ym mis Hydref 2019. Hoffem ddiolch i Andrea am ei holl waith caled a dymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

Staff Newydd

Croesawodd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ddau aelod newydd o staff i'r Tîm:

- Ymunodd Mr Luke Absolam â'n Tîm Gweinyddol ym mis Gorffennaf 2019
- Ymunodd Sarah Benson â'n Tîm Eiriolaeth ym mis Hydref 2019.

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
6-8 William Brown Close
Tŷ Raglan
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB
Ffôn: 01633 838516
E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae ein cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu o'n gwefan.

www.patienthelp.wales.nhs.uk/aneurinbevan